

# Chwalu jargon newid hinsawdd

- 25 munud
- Gwaith grwp
- Cardiau chwalu jargon

**1** Os yw'ch grŵp yn newydd i'r cysyniad o newid hinsawdd, gallwch chi ddechrau trwy ofyn iddyn nhw beth maen nhw'n ei wybod amdano. Eglurwch mai newid hinsawdd yw'r newid hirdymor ym mhatrymau tywydd cyfartalog ar draws y byd. Ers canol y 1800au, mae bodau dynol wedi cyfrannu at ryddhau carbon deuocsid a nwyon tŷ gwydr eraill i'r aer. Mae hyn yn achosi i dymheredd byd-eang godi, gan arwain at newidiadau hirdymor i'r hinsawdd. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar **wefan y Swyddfa Dywydd**.

**2** Ysgrifennwch yr ymadrodd newid hinsawdd ar y bwrdd neu'r sgrîn, a dywedwch wrth y grŵp eu bod yn mynd i edrych ar eiriau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd.

**3** Rhannwch y grŵp yn dimau o dri neu bedwar, a gofynnwch i bob un ysgrifennu cymaint o eiriau â phosibl sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd o fewn terfyn amser (e.e. 3 munud). Nid oes rhaid iddynt fod yn eiriau y maent yn gwybod eu hystyr, ond os ydynt, gallant rannu hynny ag eraill yn ddiweddarach, ond dylent ysgrifennu unrhyw rai y maent yn meddwl sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd.

**4** Yna, gofynnwch i'r timau amlygu neu gylchu geiriau maen nhw'n meddwl eu bod nhw'n deall eu hystyr ac y gallent eu hesbonio. Gofynnwch i bob tîm rannu cwpl o'r geiriau hynny ac egluro beth maen nhw'n ei olygu, yna gofynnwch iddyn nhw rannu cwpl o eiriau nad ydyn nhw'n gwybod eu hystyr. Mae hyn yn gyfle i rannu gwybodaeth am ystyr y geiriau hyn ac yn amlygu bod rhai geiriau yn anodd eu deall.

**5** Eglurwch fod geiriau gan broffesiwn neu grŵp sy'n anodd eu deall yn aml yn cael eu galw'n **jargon**. Eglurwch fod chwalu jargon yn golygu rhoi esboniadau syml a chlir o jargon.

**6** Dosbarthwch y cardiau sy'n chwalu **jargon** ar newid hinsawdd (ar dudalennau 3 i 7) i weld a all pobl ifanc amlygu neu gylchu unrhyw eiriau eraill yn eu rhestr. Y geiriau sydd wedi'u cynnwys ar y cardiau yw: nwy tŷ gwydr, hinsawdd, cynhesu byd-eang, sero net, 1.5 gradd, effaith tŷ gwydr, allyriadau CO2 , COP, tanwydd ffosil, codiad yn lefel y môr, tywydd eithafol, ôl troed carbon, carbon niwtral, gwrthbwyso carbon, llygredd aer, bioamrywiaeth, datgoedwigo, lliniaru, addasu.

**7** Gofynnwch i bob grŵp ddewis gair y maen nhw am ei chwalu mewn jargon a gofynnwch iddyn nhw greu llun neu boster i helpu grŵp arall i ddeall y gair yn well. Os oes gennych amser, gofynnwch i'r grwpiau gyflwyno eu gair jargon i weddill y grwpiau.

## Estyniad dewisol

I ymestyn y gweithgaredd hwn os ydych mewn ysgol, gofynnwch i'r grŵp gynnal arolwg ar draws yr ysgol yn cynnwys geiriau newid hinsawdd dethol, i ddarganfod pa eiriau y mae dosbarthiadau eraill yn gyfarwydd â nhw. I wneud hyn, gallen nhw restru'r holl eiriau a gofyn i bobl ifanc eraill yn yr ysgol roi cylch o amgylch y geiriau nad ydyn nhw'n gwybod neu ddim yn eu deall. Os nad ydych chi mewn ysgol, fe allech chi gael pobl ifanc i wneud yr un peth gyda'u teulu neu ffrindiau.

Gofynnwch i'ch grŵp ddewis gair nad oedd pobl ifanc eraill yn yr ysgol, neu yn eu teulu neu grŵp o ffrindiau, yn ei ddeall a chreu poster neu arddangosfa i egluro beth mae'r gair hwn yn ei olygu. Gellid arddangos hwn yn y neuadd neu goridor, neu yn eu cartref, fel 'gair yr wythnos'.



© Crown Copyright 2022, Met Office

# Cardiau chwalu jargon

### Effaith tŷ gwydr

Yr effaith tŷ gwydr yw cynhesu planed y Ddaear. Mae'n cael ei achosi gan nwyon yn yr atmosffer yn dal egni o'r haul. Gelwir y nwyon hyn yn **nwyon tŷ gwydr**. Heb yr effaith tŷ gwydr, byddai'r Ddaear yn rhy oer i fywyd fodoli. Ond mae gweithgareddau dynol fel llosgi glo, datgoedwigo (torri llawer o goed), gyrru ceir neu awyrennau'n hedfan yn cynyddu'r effaith tŷ gwydr sy'n achosi'r Ddaear i gynhesu'n fwy nag y dylai.

### Nwyon ty gwydr

Mae nwyon tŷ gwydr yn nwyon yn yr aer sy'n dal egni o'r Haul ac yn cynhesu wyneb y Ddaear ac aer uwch ei ben. Y prif rai yw carbon deuocsid, methan, ocsid nitrus, ac anwedd dŵr. Heb y nwyon hyn, byddai'r Ddaear yn rhy oer i fywyd ac i fodau dynol fodoli. Ond mae gweithgareddau dynol fel llosgi glo, **datgoedwigo** (torri llawer o goed), gyrru ceir neu awyrennau'n hedfan yn cynyddu faint o nwyon tŷ gwydr sydd yn ein hatmosffer sy'n achosi i'r Ddaear gynhesu mwy nag y dylai.

### Newid hinsawdd

Mae newid hinsawdd yn cyfeirio at newid byd-eang yn nhywydd y blaned a thymheredd cyfartalog dros gyfnod hir o amser. Mae gwyddonwyr wedi sylwi bod wyneb y Ddaear yn cynhesu, ac mae llawer o'r blynyddoedd cynhesaf a gofnodwyd wedi digwydd yn yr 20 mlynedd diwethaf. Mae'r cynhesu hwn wedi arwain at newidiadau eraill yn ein patrymau tywydd – megis digwyddiadau tywydd mwy garw ledled y byd.

### Hinsawdd

Hinsawdd yw mesuriadau tymheredd, gwynt, eira, lleithder a glaw ar gyfartaledd dros gyfnod hir o amser mewn lleoliad penodol. Mae hinsawdd fel y tywydd, ond dros lawer o flynyddoedd. I'ch helpu i gofio, dywedodd rhywun unwaith "Hinsawdd yw'r hyn yr ydych yn ei ddisgwyl, y tywydd yw'r hyn a gewch".

# Cardiau chwalu jargon

## Allyriadau $CO_2$

Mae CO2 yn golygu carbon deuocsid, **sy'n nwy tŷ gwydr**. Mae carbon deuocsid yn angenrheidiol ar gyfer bywyd ar y Ddaear. Fodd bynnag, mae gweithgareddau dynol fel llosgi glo, datgoedwigo (torri llawer o goed), gyrru ceir neu hedfan awyrennau yn cynyddu faint o nwyon tŷ gwydr sydd yn ein hatmosffer, sy'n achosi i'r Ddaear gynhesu mwy nag y dylai. Mae allyriadau CO2 fel arfer yn cyfeirio at y CO2 a allyrrir oherwydd gweithgareddau dynol.

## Sero net

Mae sero net yn cyfeirio at gyflwr lle mae'r **nwyon tŷ gwydr sy'n** mynd i'r atmosffer yn cael eu cydbwyso trwy eu tynnu allan o'r atmosffer. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen inni leihau'r allyriadau yr ydym yn eu hanfon i'r atmosffer, o weithgareddau megis diwydiant, trafnidiaeth, amaethyddiaeth ddwys, yn ogystal â chael gwared â nwyon tŷ gwydr sydd eisoes yn yr atmosffer. Meddyliwch am fath gyda'r tapiau wedi'u troi ymlaen, er mwyn sicrhau bod faint o ddŵr yn aros yr un fath yn y bath, gallech naill ai droi'r tap i ffwrdd, neu ddraenio'r dŵr i lawr y twll plwg – neu gyfuniad o'r ddau.

## Ôl troed carbon

Mae'r term ôl troed carbon yn cyfeirio at faint o garbon deuocsid a methan sy'n cael eu rhyddhau i'r aer oherwydd gweithgareddau dynol. Gall cwmnïau, lleoedd, ysgolion ac unigolion gael olion traed carbon, yn seiliedig ar faint o drydan y maent yn ei ddefnyddio, y nwyddau y maent yn eu cynhyrchu neu'r hyn y maent yn ei waredu.

## The Paris Agreement

Mae Cytundeb Paris yn gytundeb rhwng mwy na 190 o wledydd, sy'n bwriadu lleihau nwyon tŷ gwydr a chyfyngu ar gynhesu byd-eang. Edrychodd hefyd ar ffyrdd y gallai gwledydd newid i ddelio â phroblemau a achosir gan **newid hinsawdd**, a gofynnodd i wledydd wario arian i wneud yn siŵr y byddai hyn yn digwydd. Fe'i llofnodwyd ym Mharis yn 2015.

# Cardiau chwalu jargon

## 1.5 gradd (1.5°C)

Mae gwyddonwyr yn cytuno bod yn rhaid cadw'r cynnydd mewn tymheredd byd-eang cyfartalog, o'i gymharu â'r tymheredd byd-eang cyfartalog a gofnodwyd cyn i ni ddechrau gollwng llawer o nwyon tŷ gwydr (a elwir yn aml yn dymheredd cyn-ddiwydiannol), yn is na 1.5°C erbyn diwedd y ganrif er mwyn osgoi'r effeithiau gwaethaf. Os na lwyddwn i gadw'r codiad tymheredd o dan 1.5°C, mae'n golygu y gallai lefelau'r môr godi'n sylweddol, byddai digwyddiadau tywydd eithafol yn amlach, a gallai bioamrywiaeth ddirywio.

## Tanwydd ffosil

Mae angen egni ar yr holl beiriannau rydyn ni'n eu defnyddio bob dydd (fel ceir, cyfrifiaduron neu setiau teledu) i wneud iddyn nhw weithio. Daw'r rhan fwyaf o'r ynni hwnnw o losgi tanwyddau ffosil, sy'n cynnwys olew, glo a nwy.

Y broblem â thanwydd ffosil yw bod cyflenwad y blaned yn gyfyngedig, felly mae'n golygu, unwaith y byddwn wedi defnyddio'r holl adnoddau, na fydd rhagor o adnoddau. Yn ogystal, mae defnyddio tanwyddau ffosil yn niweidio'r amgylchedd, oherwydd pan fyddwn yn eu llosgi, maent yn rhyddhau nwyon niweidiol sy'n cynyddu **cynhesu byd-eang**.

## Lliniaru

Mae lliniaru yn cyfeirio at weithredoedd dynol sy'n ceisio lleihau **allyriadau nwyon tŷ** gwydr a chyfyngu ar gynhesu byd-eang. Gellir gweithredu mesurau lliniaru ar wahanol lefelau: rhyngwladol, cenedlaethol a lleol.

Efallai y byddwch hefyd yn gwneud newidiadau ar lefel bersonol yn eich arferion bwyta, er enghraifft trwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth amgen i fynd o gwmpas, fel beiciau.

# Cardiau chwalu jargon

## Tywydd eithafol

Tywydd eithafol yw pan fydd tywydd yn sylweddol wahanol i'r tywydd arferol. Mae mathau o dywydd eithafol yn cynnwys llifogydd, sychder, stormydd, cyfnodau oer a thonnau gwres. Disgwylir i**newid hinsawdd**gynyddu dwyster, amlder ac effeithiau digwyddiadau tywydd eithafol.

## COP

COP, sy'n sefyll am Gynhadledd y Pleidiau, mae'n gynhadledd sy'n cael ei rhedeg gan y Cenhedloedd Unedig, sefydliad rhyngwladol sy'n anelu at gynnal heddwch a diogelwch. Pob blwyddyn, mae arweinwyr o lawer o wledydd yn cyfarfod mewn man gwahanol i drafod yr hyn sydd angen ei roi ar waith i fynd i'r afael â **newid hinsawdd**.

## Gwrthbwyso carbon

Gwrthbwyso carbon yw'r weithred o wneud iawn am allyriadau nwyon tŷ **gwydr** sy'n deillio o weithgarwch dynol, drwy roi arian i sefydliadau sy'n helpu'r amgylchedd drwy leihau allyriadau carbon neu grynodiadau yn yr atmosffer – er enghraifft drwy blannu coed.

## Llygredd aer

Llygredd aer yw halogiad yr amgylchedd dan do neu awyr agored. Gall ddod o wres, trafnidiaeth, diwydiant neu danau coedwig. Gall llygredd aer dan do ac awyr agored achosi problemau anadlol a chlefydau eraill a gall effeithio ar anifeiliaid a phlanhigion.

## Cynnydd yn lefel y môr

Mae cynnydd yn lefel y môr yn gynnydd yn lefel cefnforoedd a moroedd y byd oherwydd effeithiau **cynhesu byd-eang**. Pan fydd yn cynhesu, mae dŵr yn ehangu felly mae'n cymryd mwy o le, sy'n achosi i lefel y môr godi. Mae lefel y môr hefyd yn codi oherwydd bod rhewlifoedd a chapiau iâ yn toddi ac yn ychwanegu mwy o ddŵr at y cefnforoedd.

## Cynhesu byd-eang

Cynhesu byd-eang yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r cynnydd yn y tymheredd cyfartalog ar y Ddaear. Daw'r **newid hinsawdd** presennol o gynhesu byd-eang a achosir gan weithgaredd dynol, megis llosgi glo, defnyddio olew, gyrru ceir, neu gynhyrchu nwyddau.

# Cardiau chwalu jargon

### Bioamrywiaeth

Mae bioamrywiaeth yn cynnwys yr amrywiaeth o rywogaethau byw ar y Ddaear, megis planhigion, anifeiliaid a bacteria. Mae llawer o rywogaethau dan fygythiad difodiant oherwydd **newid hinsawdd** a gweithgareddau dynol, gan roi bioamrywiaeth mewn perygl.

### Addasiad

Addasiad yw'r broses o addasu ein ffordd o fyw i'r newidiadau a ddaw yn sgil **cynhesu byd-eang** a **newid hinsawdd**. Er enghraifft , mae rhai trefi arfordirol yn adeiladu morgloddiau , sef waliau i amddiffyn yr arfordir , i amddiffyn eu hunain rhag cynnydd yn **lefel y môr**.

### Datgoedwigo

Mae datgoedwigo yn golygu torri llawer o goed mewn coedwigoedd ar draws y byd i wneud lle ar gyfer amaethyddiaeth, adeiladwaith newydd neu weithgareddau mwyngloddio a defnyddio'r coed ar gyfer tanwydd ac adeiladwaith. Gall datgoedwigo gael effaith negyddol ar bobl, anifeiliaid a phlanhigion oherwydd ei fod yn dinistrio'r amgylchedd y maent yn byw ynddo.

### Gweithredaeth hinsawdd

Gweithredaeth hinsawdd yw pan fydd pobl yn dod at ei gilydd i roi pwysau ar arweinwyr i gymryd camau i fynd i'r afael â **newid hinsawdd**. Mae'r actifydd o Sweden, Greta Thunberg, yn un o'r actifyddion ifanc mwyaf enwog, sy'n adnabyddus am herio arweinwyr y byd i weithredu ar unwaith dros newid hinsawdd.